Gair gan y Maer



Gwasanaeth Cenedlaethol Coffáu a Dathlu i Nodi Canmlwyddiant yr Awyrlu Brenhinol yn Eglwys Gadeiriol Sant Deiniol, Bangor 8fed o Fedi.

Cynrychiolwyd Y Maer a'r Cyngor Tref gan Y Cynghorydd Mici Plwm a'r Dirprwy Faeres Glenda Haf yn y gwasanaeth.

Hen Daid a Nain

Llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Ioan Gruffydd a Mrs Margaret Gruffydd ar ddod yn hen nain a thaid ar enedigaeth Cara. Pob bendith i'r teulu.

Tram

Cafwyd cyfarfod buddiol ym Mhlas Glyn y Weddw gyda swyddogion yr oriel ac i weld y gwaith sydd wedi'i wneud ar y tram.

Diolch i'r Cynghorydd Elfed Gruffudd a'r Cynghorydd Michael Sol Owen am eu presenoldeb.

Swydd Dirprwy Glerc

Diolch i'r cynghorwyr a gymrodd ran yn y broses o benodi Dirprwy Glerc i'r dref. Daeth tri ymgeisydd da ar y rhestr fêr. Ac wedi ystyried popeth yn drwyadl. Penderfynwyd cynnig y swydd yn unfrydol i Mr Eric Price.

Dymuniadau gorau iddo yn ei rôl newydd.

Noson Anrhydeddu'r Prifardd Cadeiriol Gruffudd Eifion Owen
Mae gwahoddiadau wedi eu dosbarthu i'r noson anrhydeddu'r Prifardd Cadeiriol â gynhelir ar nos Wener 26ain Hydref am 6:30y.h.

Eric Wyn Roberts
4ydd Hydref, 2018.